
- a brief statement of the reason why the place of detention (rather than a previous address) is being used as a registration address

5. For further information on registering to vote, contact an Electoral Registration Officer. The rules on registration are in the Representation of the People Act 2000 and Regulations.

**ANNEX B**

**FORMAT FOR APPLICATIONS FOR ABSENT VOTING**

1. The eligible prisoner should write to the Electoral Registration Officer (ERO) who accepted their application to register to vote (see Annex A). The absent voting application should be sent as soon as possible after the date of an election has been announced and must be received by EROs no later than **5pm** on the **sixth** working day before the day of the election.

2. **All** applicants for absent voting should include the following in their letter:

- the address at which the applicant is registered to vote
- full name
- the date of the election in which the applicant wishes to vote
- a statement whether the applicant would like to vote by post or proxy (see below for further guidance)
- the applicant's usual signature or mark

3. If voting by **post**, in addition to the information in paragraph 2 above, the applicant should also provide:

- the address to which the ballot paper should be sent (remember that ballot papers will be sent to reach postal voters about seven days before an election, so you may want to give a forwarding address to the prison)

4. If voting by **proxy**, in addition to the information in paragraph 2 above, the applicant should also provide:

- the reason why you cannot attend the polling station yourself (for example, that you will be in prison on that date)
- the full name and address of the person who will attend the polling station for you (remember they should be 18 years old or over)
- if the person you appoint as proxy is a member of your family, give details of how they are related to you (e.g. brother, wife)
- a statement that the proxy named has been consulted and is able and willing to be proxy

5. For further information on absent voting, contact an Electoral Registration Officer. The rules on absent voting are in the Representation of the People Act 2000 and Regulations.

**Annex C**

**Previous Circulars on Prisoners' Voting Rights, now cancelled**

| Circular Number | Issued | Expired | Subject |
|---|---|---|---|
| PSI 24/2000 | 30/3/2000 | 5/5/2000 | Local Elections, May 2000 |
| PSI 31/1999 | 15/4/1999 | 7/5/1999 | Welsh Local and National Assembly Elections, May 1999 |
| PSI 30/1999 | 15/4/1999 | 11/6/1999 | Local Elections, May 1999, and European Elections June 1999 |
| PSI 68/1997 | 14/8/1997 | 31/3/1998 | Referendum on a Welsh Assembly, September 1997 |
| PSI 19/1997 | 3/3/1997 | 31/3/1998 | Local and General Elections, May 1997 |
| IG 22/1994 | 24/3/1994 | 28/3/1996 | Local Elections, April 1994, and European Elections, May 1994 |
| CI 7/1993 | 25/3/1993 | 24/3/1994 (cancelled by IG 22/1994) | Local Elections, May 1993 |
| CI 9/1987 | 28/3/1987 | 25/3/1993 (cancelled by CI 7/1993 | Local and General Elections, May 1987 |
| CI 43/1983 | 13/5/1993 | 28/3/1987 (cancelled by CI 9/1987 | General Election, May 1983 |
| CI 5/1979 | 7/2/1979 | | Scotland and Wales Referenda, March 1979 |
| CI 26/1975 | 14/5/1975 | | EEC Referendum, June 1975 |
| CI 43/1970 | 1/6/1970 | | General Election, June 1970 |

## 1. COUNTRIES IN THE EUROPEAN UNION

Once registered to vote, nationals of the Republic of Ireland can vote in all elections. Once registered to vote, the nationals of the other European Union countries can vote in all elections, apart from general elections for the U.K. parliament.

| | |
|---|---|
| Austria | Ireland |
| Belgium | Italy |
| Denmark | Luxembourg |
| Finland | Netherlands |
| France | Portugal |
| Germany | Spain |
| Greece | Sweden |

## 2. COUNTRIES IN THE COMMONWEALTH.

Once registered to vote, nationals of Commonwealth countries can vote in all elections:

Antigua and Barbuda
Australia
The Bahamas
Bangladesh
Barbados
Belize
Botswana
Brunei
Cameroon
Canada
Cyprus
Dominica
Fiji
The Gambia
Ghana
Grenada
Guyana
India
Jamaica
Kenya
Kiribati
Lesotho
Malawi
Malaysia
The Maldives
Malta
Mauritius
Mozambique
Namibia
Nauru
New Zealand
Nigeria
Pakistan
Papua New Guinea
St Christopher and Nevis
St Lucia
St Vincent and the Grenadines
Samoa
Seychelles
Sierra Leone
Singapore
Solomon Islands
South Africa
Sri Lanka
Swaziland
Tanzania
Tonga
Trinidad and Tobago
Tuvalu
Uganda
United Kingdom
Vanuatu
Zambia
Zimbabwe

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg

**National Assembly for Wales**
Children, Young People and Education Committee

Vaughan Gething AC
Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
Llywodraeth Cymru

11 Ebrill 2019

Annwyl Vaughan,

**Ymgynghoriad Pwysau Iach: Cymru Iach**

Fel y gwyddoch, nododd y **Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg** yn gynharach eleni ein bwriad i drafod strategaeth ddrafft **Pwysau Iach: Cymru Iach** o safbwynt plant a phobl ifanc. Ein nod, wrth wneud y darn byr hwn o waith, oedd sicrhau, ar y cam cynnar hwn o ddatblygu polisi pob oed, y byddai anghenion penodol plant a phobl ifanc yn cael eu diwallu.

Gyda'r **ystadegau diweddaraf** yn dangos bod 26.4 y cant o blant yng Nghymru dros eu pwysau neu'n ordew (o gymharu hyn â 22.4 y cant yn Lloegr a'r Alban), a bod 12 y cant o blant yng Nghymru yn ordew (o gymharu hyn â 9.5 y cant yn Lloegr a 10.1 y cant yn yr Alban), rydym yn cytuno â'ch honiad "*rydym wedi cyrraedd adeg pan mae angen inni weithredu'n uniongyrchol i wella cyfleoedd bywyd y genhedlaeth bresennol a chenedlaethau'r dyfodol*" (Ffynhonnell: Rhagair, Pwysau Iach: Cymru Iach).

Er mwyn llywio ein casgliadau, gwahoddwyd grŵp bach o randdeiliaid perthnasol yn cynrychioli Cynghrair Gordewdra Cymru, Chwaraeon Cymru, Comisiynydd Plant Cymru, ac undebau addysg, i drafodaeth ford gron ar 6 Mawrth 2019. Gwnaethom gyflwyno'r materion a nodwyd fel rhan o'r drafodaeth hon i'r Prif Swyddog Meddygol mewn sesiwn gyhoeddus ar **14 Mawrth 2019.** Hoffem ddiolch i'r rhanddeiliaid a'r Prif Swyddog Meddygol am eu cyfraniad at ein gwaith craffu.

Rydym yn croesawu gwaith Llywodraeth Cymru yn y maes hwn ac yn cydnabod yr ymdrech a wnaed hyd yn hyn i sicrhau bod y strategaeth ddrafft yn trafod materion sy'n ymwneud â phlant a phobl ifanc yn benodol. Atodir i'r llythyr hwn amlinelliad o'r prif faterion rydym yn credu bod angen rhagor o waith arnynt a'n safbwyntiau mewn perthynas â phob un. Rydym yn gobeithio y byddant o ddefnydd i Lywodraeth Cymru wrth ddatblygu ei strategaeth yn y maes hwn, yr ydym yn edrychwn ymlaen at weld y fersiwn derfynol ohoni'n nes ymlaen eleni.

O ystyried natur drawsbynciol y materion a godwyd a'n casgliadau, rwyf wedi anfon copi o'r llythyr hwn at Gadeiryddion y Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon a'r Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau iddynt fod yn ymwybodol ohono.

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1NA
SeneddPPIA@cynulliad.cymru
www.cynulliad.cymru/SeneddPPIA
0300 200 6565

**National Assembly for Wales**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1NA
SeneddCYPE@assembly.wales
www.assembly.wales/SeneddCYPE
0300 200 6565

Yn gywir,

**Lynne Neagle AC**
**Cadeirydd**

**Cc** Dr Dai Lloyd AC, Cadeirydd, y Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon
John Griffiths AC, Cadeirydd y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau

**ATODIAD**

**Ymgynghoriad Pwysau Iach: Cymru Iach: Ymateb y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg**

Mae'r ymateb hwn wedi'i strwythuro'n unol â 4 thema allweddol yr ymgynghoriad:

- Arweinyddiaeth a Galluogi Newid;
- Amgylcheddau Iach;
- Lleoliadau Iach;
- Pobl Iach.

Mae'n defnyddio gwybodaeth a gasglwyd yn ystod trafodaeth ford gron anffurfiol y Pwyllgor PPIA â rhanddeiliaid (6 Mawrth 2019) a'r sesiwn dystiolaeth lafar gyhoeddus gyda'r Prif Swyddog Meddygol ar 14 Mawrth 2019.

Yn unol â'n cylch gwaith, mae'r pwyntiau a godwyd yn yr ymateb hwn yn canolbwyntio ar anghenion plant a phobl ifanc.

## 1. Arweinyddiaeth a Galluogi Newid

*Dull gweithredu ac atebolrwydd system gyfan*

1.1 Roedd consensws bras yn y trafodaethau a gawsom â rhanddeiliaid a'r Prif Swyddog Meddygol bod angen mynd i'r afael â gorbwysau a gordewdra drwy **ddull gweithredu traws-sector, system gyfan**. Tynnodd rhanddeiliaid sylw at bwysigrwydd **gweithio mewn partneriaeth a chyfathrebu da** i gyflawni hyn.

1.2 Fodd bynnag, rhybuddiodd rhanddeiliaid fod angen gwarchod rhag sefyllfa lle gallai'r strategaeth ddod yn **rôl i bawb, ond yn gyfrifoldeb i neb**. Croesawyd y Bwrdd Gweithredu Cenedlaethol arfaethedig fel modd o fynd i'r afael â'r risg hon, ond nododd rhanddeiliaid ei bod, hyd yn hyn, wedi bod yn her darganfod pwy sy'n cymryd **cyfrifoldeb** cyffredinol am y gwaith. Pwysleisiwyd pwysigrwydd **grymuso rhanddeiliaid lleol i weithio gyda rhaglen genedlaethol** i lunio cefnogaeth sy’n addas i gymunedau lleol.

1.3 Cydnabu'r Prif Swyddog Meddygol bwysigrwydd llywodraethu o ystyried natur drawsbynciol y gwaith hwn, a rôl arweinyddiaeth leol ochr yn ochr â goruchwyliaeth genedlaethol. Ychwanegodd:

> “…only maybe 10 per cent, 15 per cent, possibly 20 per cent of what makes and keeps us healthy as individuals and as communities can be driven through the health system.”[1]

[1] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Cofnod y Trafodion [paragraff 51], 14 Mawrth 2019

1.4 Pan ofynnwyd iddo a oedd cymhlethdod y maes hwn yn golygu y dylai'r Bwrdd Gweithredu Cenedlaethol fod yn atebol i'r Prif Weinidog, dywedodd y Prif Swyddog Meddygol y canlynol:

> "Ultimately, the First Minister will be responsible for this and will want to have a strong oversight of this [...] It does cut across all portfolios, and so this is an issue that I have discussed with Cabinet, and that collective ownership is really important, and will be, because it can't just sit in one domain."[2]

1.5 Aeth y Prif Swyddog Meddygol ymlaen i ddweud y byddai angen gweinidogaeth neu sefydliad arweiniol, ac y byddai'n gweld **iechyd yn arwain y gwaith gyda chyfrifoldeb bras ar draws y Llywodraeth**.[3]

**Safbwynt y Pwyllgor ar ddull gweithredu ac atebolrwydd system gyfan**

Rydym yn cefnogi'r cynnig y dylai'r strategaeth derfynol gael ei harwain gan Fwrdd Gweithredu Cenedlaethol, sy'n atebol i Weinidogion. Dylai cynrychiolaeth ar y Bwrdd ddod o bob maes perthnasol.

Ymhellach, rydym yn cefnogi'r angen am ddigon o hyblygrwydd i arweinwyr lleol addasu'r gefnogaeth er mwyn diwallu anghenion eu cymunedau eu hunain. Mae angen rhagor o eglurder ar sut y bydd Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus yn cael eu dwyn i gyfrif yn hyn o beth.

Rydym yn croesawu cydnabyddiaeth y Prif Swyddog Meddygol o rôl y Prif Weinidog wrth ddarparu arweinyddiaeth ar y mater cymhleth a thrawsbynciol hwn. Rydym yn nodi ei arwydd y bydd y Bwrdd, yn ôl pob tebyg, yn atebol i'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol. Mae angen eglurder ynghylch pa ysgogiadau y byddant ar gael i'r Gweinidog Iechyd yn y rôl arweiniol hon er mwyn sicrhau y bydd y camau gweithredu yn y strategaeth ddrafft (er enghraifft mewn perthynas â'r cwricwlwm newydd, neu bolisi cynllunio) yn gyflawnadwy yn hytrach na bod yn ddyheadau.

*Ymgysylltu â phlant a phobl ifanc*

1.6 Cafwyd cytundeb unfrydol bod **sicrhau y caiff lleisiau plant a phobl ifanc eu clywed** gan y rhai sy'n arwain ac yn galluogi newid yn allweddol. Roedd awgrymiadau ynghylch sut i gyflawni hyn yn amrywio o ymgysylltu â chynghorau ysgol neu ddefnyddio rhwydweithiau presennol (megis cynllun Llysgenhadon Ifanc Chwaraeon Cymru neu gynllun tebyg) i sefydlu grŵp rhanddeiliaid ieuenctid cenedlaethol (fel yr un a sefydlwyd i gefnogi'r Cyd-Grŵp Gorchwyl a Gorffen Gweinidogion ynghylch Cadernid Meddwl).

---

[2] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Cofnod y Trafodion [paragraff 54], 14 Mawrth 2019
[3] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Cofnod y Trafodion [paragraff 55], 14 Mawrth 2019

1.7 Roedd rhywfaint o bryder **nad oedd y wybodaeth a oedd yn ategu'r ddogfen ymgynghori wedi'i haddasu ddigon yn ôl anghenion plant a phobl ifanc**, ond canmolwyd yr adnoddau a ddatblygwyd ar hyn ar gyfer yr ystafell ddosbarth.

1.8 Rhestrodd y Prif Swyddog Meddygol a Phennaeth Cangen Byw'n Iach ac Egnïol Llywodraeth Cymru y **gwaith a wnaed hyd yn hyn i ymgysylltu â phlant a phobl ifanc yn yr ymgynghoriad**, gan gynnwys: ymweliadau ysgol a grŵp ieuenctid, sesiwn gyda llysgenhadon ieuenctid, argaeledd y fersiwn plant a phobl ifanc o'r ymgynghoriad, a chreu pecyn cymorth i ysgolion.

**Safbwynt y Pwyllgor ar ymgysylltu â phlant a phobl ifanc**

Mae llwyddiant y strategaeth yn y tymor hwy'n dibynnu ar ei gallu i fynd i'r afael â gorbwysau a gordewdra ymhlith ein plant a'n pobl ifanc. Fel y cyfryw, mae ymgysylltu â phlant a phobl ifanc yn y gwaith i ddatblygu'r strategaeth yn hanfodol. Rydym yn cydnabod y gwaith a wnaed hyd yn hyn i ymgysylltu â phobl ifanc ond rydym yn rhannu safbwynt y Prif Swyddog Meddygol bod lle i wneud mwy bob amser. Dylai Llywodraeth Cymru weithio'n rhagweithiol i nodi cyfleoedd ychwanegol i ymgynghori'n ystyrlon â phlant a phobl ifanc ar ddatblygu a gweithredu'r strategaeth hon.

*Targedau*

1.9 Cafwyd cefnogaeth gref ymhlith rhanddeiliaid dros **fabwysiadu targed clir o ran gorbwysau a gordewdra ar gyfer Cymru.** Er y cydnabuwyd bod y targedau presennol yn yr Alban a Lloegr, sef haneru gordewdra erbyn 2030, yn annhebygol o gael eu cyrraedd, roedd rhanddeiliaid yn credu y byddai eglurder ynghylch uchelgeisiau Llywodraeth Cymru yn y maes hwn yn **canolbwyntio adnoddau, arweinyddiaeth a chamau gweithredu ar nod cyffredin** ac yn **helpu i werthuso cynnydd ac atebolrwydd amdano**.

1.10 Roedd manteision eraill o fabwysiadu targed clir a nodwyd yn cynnwys yr ysgogiad y gallai ei roi i nodi deinameg newid (h.y. y **pethau allweddol i'w gwneud i fynd i'r afael â'r mater**) a'r effaith y gallai ei chael ar ddangos i'r cyhoedd **sut y dylai'r sefyllfa arferol fod** o ran bwyta'n iach a bod yn egnïol.

1.11 Pan ofynnwyd iddo am bennu targed ar gyfer Cymru, dywedodd y Prif Swyddog Meddygol ei fod yn sicr yn rhywbeth y gallem ei ystyried o ran y strategaeth derfynol.[4] Fodd bynnag, rhybuddiodd fod y targed a fabwysiadwyd yn Lloegr a'r Alban yn fwy o ddyhead na bod yn gyflawnadwy ac, os **ydym yn mynd i ddewis targed yng Nghymru, mae angen i ni**

[4] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Cofnod y Trafodion [paragraff 12], 14 Mawrth 2019

**gydbwyso'r gallu i gyflawni â'r her**.[5] Pwysleisiodd hefyd mai dim ond un o'r adnoddau sydd ar gael oedd y targedau[6] a bod **gwerthusiad cryf** yr un mor bwysig[7].

**Safbwynt y Pwyllgor ar dargedau**

Rydym yn credu bod yn rhaid i Gymru gael targed uchelgeisiol ar gyfer lleihau gorbwysau a gordewdra. Mae angen hyn er mwyn sicrhau bod digon o adnoddau a ffocws i ysgogi newid. Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn annog Llywodraeth Cymru i fod yn fwy arloesol ac uchelgeisiol wrth fynd i'r afael â heriau iechyd y cyhoedd ac mae'n nodi disgwyliad y bydd Llywodraeth Cymru yn ymrwymo i gerrig milltir i ganolbwyntio ar feysydd (megis gordewdra) lle mae angen cynnydd sylweddol. Mae angen i gynnydd yn erbyn amcanion a fydd yn cymryd nifer o flynyddoedd i'w gwireddu – fel lleihau gordewdra ymhlith plant – gael ei fonitro yn erbyn cerrig milltir.

*Buddsoddiad ac adnoddau*

1.12 Roedd pwysigrwydd **eglurder mewn perthynas â'r amserlenni a bennwyd i gyflawni'r strategaeth a'r adnoddau a ddyrannwyd iddi'n** fater allweddol a godwyd gan randdeiliaid. Rhybuddiodd rhanddeiliaid y byddai **cynaliadwyedd cynnydd** mewn perygl pe bai buddsoddiadau wedi'u hysgogi mewn gwasanaethau, cyfleusterau neu fentrau'n cael eu gwneud heb gynlluniau ar waith ar gyfer adnoddau yn y tymor hir.

1.13 Roedd cefnogaeth ymhlith rhanddeiliaid am y cyllid a ddyrannwyd i Gymru o ganlyniad i gyflwyno **Ardoll Diwydiant Diodydd Meddal y DU** i'w defnyddio ar dargedu gordewdra ymhlith plant. Fodd bynnag, pwysleisiwyd bod y swm a godwyd o'r ardoll hyd yn hyn yn **llawer is na'r hyn a ddisgwyliwyd yn gychwynnol** oherwydd bod y diwydiant diodydd meddal yn ailfformiwleiddio ei gynhyrchion mewn ymateb i gyflwyno'r ardoll – datblygiad a groesawyd gan randdeiliaid fel arwydd o effaith yr ardoll. Fel y cyfryw, dywedwyd na ellid dibynnu ar yr arian hwn yn unig i ariannu mentrau yn y maes hwn.

1.14 Esboniodd y Prif Swyddog Meddygol na ellid meintioli'r union swm sydd ei angen i gyflawni'r strategaeth nes bod canlyniadau'r ymgynghoriad yn hysbys. Fodd bynnag, dywedodd y trafodwyd **£8 miliwn i £10 miliwn y flwyddyn** fel ffigur bras o ran y swm y gallai fod angen i ni ei fuddsoddi, ond y byddai angen ei dynnu o raglenni presennol.[8]

---

[5] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Cofnod y Trafodion [paragraff 10], 14 Mawrth 2019
[6] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Cofnod y Trafodion [paragraff 10], 14 Mawrth 2019
[7] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Cofnod y Trafodion [paragraff 16], 14 Mawrth 2019
[8] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Cofnod y Trafodion [paragraff 18], 14 Mawrth 2019

1.15 Mewn ymateb i'r awgrym y gellid targedu'r cyllid canlyniadol sy'n deillio o'r Ardoll Diodydd Meddal i fynd i'r afael â gordewdra fel mewn rhannau eraill o'r DU, dywedodd y Prif Swyddog Meddygol y canlynol:

> "I'm not personally in favour of hypothecation, I think **I'm more interested in the totality of resource that goes into public health programmes than into marginal resource** [...] I think about the totality of the £7 billion we spend in health and social care and how we can divert and channel some of that towards broad prevention initiatives in general, and towards tackling overweight and obesity in particular.[9]

**Safbwynt y Pwyllgor ar fuddsoddiad ac adnoddau**

Er gwaethaf ymdrechion i fynd i'r afael â gordewdra ymhlith plant, mae lefelau yng Nghymru yn parhau i fod yn bryderus o uchel, gan nodi bod angen dull gweithredu mwy radical. Os yw awdurdodau lleol a byrddau iechyd yn mynd i ddatblygu gwasanaethau cynaliadwy i atal a lleihau gordewdra ymhlith plant, mae'n rhaid i hyn gael ei gefnogi drwy fuddsoddiad a threfniadau blaenoriaethu gan Lywodraeth Cymru.

Er gwaethaf blynyddoedd o hyrwyddo ffyrdd iach ac egnïol o fyw gan Iechyd Cyhoeddus Cymru, mae lefelau gorbwysau a gordewdra'n codi sy'n awgrymu bod rhaglenni naill ai wedi bod yn aneffeithiol neu fod angen eu cynyddu i gael mwy o effaith.

Os yw Llywodraeth Cymru o ddifrif ynghylch mynd i'r afael â gordewdra ymhlith plant, bydd angen iddi ariannu a chefnogi'n briodol y camau gweithredu y tynnwyd sylw atynt yn ei strategaeth. Rydym yn cefnogi Argymhelliad 20 yn adroddiad *Gweithgarwch corfforol ymhlith plant a phobl ifanc* y Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon sy'n galw ar Lywodraeth Cymru i ailystyried ei safbwynt, ac ailgyfeirio incwm sy'n cael ei greu gan y Diwydiant Diodydd Meddal i ariannu rhaglenni a mentrau sy'n canolbwyntio ar atal neu leihau gordewdra ymhlith plant, fel mewn rhannau eraill o'r DU.

*Data ar ordewdra ymhlith plant*

1.16 Roedd **cefnogaeth fras dros fabwysiadu ail fesuriad fel rhan o'r Rhaglen Mesur Plant**. Esboniwyd bod cymariaethau rhyngwladol yn awgrymu y gallai fod yn well cymryd yr ail fesuriad ychydig cyn 11 oed (oed presennol yr ail fesuriad yn Lloegr) i gasglu data cyn oed aeddfedrwydd. Fodd bynnag, pwysleisiwyd mai **dim ond os gellid dangos y manteision o wneud hynny y dylid cymryd ail fesuriad**.

1.17 Nododd rhanddeiliaid hefyd y byddai'n fuddiol ehangu'r sail dystiolaeth drwy ddatblygu **mesuriad o weithgarwch corfforol**. Byddai hyn, roeddent yn dadlau, yn rhoi cysylltiad

[9] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Cofnod y Trafodion [paragraff 25], 14 Mawrth 2019

rhwng pwysau iach a gweithgarwch iach ac y gallent helpu i nodi rhwystrau a galluogwyr i wneud dewisiadau iach am weithgarwch a maeth.

1.18 Cydnabu'r Prif Swyddog Meddygol y byddai cael ail fesuriad yn helpu o ran cael mwy o wybodaeth, ond esboniodd fod **cyfaddawd bob amser rhwng y gost o gael y wybodaeth honno a gwerth y wybodaeth honno**.[10] Dywedodd fod diffyg dealltwriaeth yng Nghymru o'r adeg pan fo plant yn dechrau mynd dros eu pwysau, felly **gallai ail fesuriad helpu i wella dealltwriaeth** a helpu i gyfeirio mentrau Llywodraeth Cymru.[11]

**Safbwynt y Pwyllgor ar ddata ar ordewdra ymhlith plant**

Rydym yn cefnogi Argymhelliad 2 yn adroddiad *Gweithgarwch corfforol ymhlith plant a phobl ifanc* y Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon sy'n galw am gynnwys ail fesuriad yn y Rhaglen Mesur Plant. Mae angen rhagor o waith brys i gadarnhau ar ba oedran y byddai fwyaf defnyddiol cymryd yr ail fesuriad hwn.

## 2. Amgylcheddau iach

*Hyrwyddiadau prisiau, arferion cynnig gostyngiadau a gwerthu diodydd egni*

2.1 Nododd rhanddeiliaid fod **hysbysebu a hyrwyddo'n ddylanwadwyr hanfodol** wrth fynd i'r afael â gorbwysau a gordewdra ymhlith plant a phobl ifanc. Yn ogystal â hysbysebion teledu, hysbysebion awyr agored a hysbysebion digwyddiadau, pwysleisiwyd rôl bwysig **hysbysebion ar-lein** yng nghyd-destun ymddygiadau a dewisiadau pobl ifanc.

2.2 Cafwyd cefnogaeth unfrydol ymhlith rhanddeiliaid am newid mewn hyrwyddiadau prisiau o fwydydd afiach i fwydydd iach. Roeddent hefyd yn cefnogi arwydd Llywodraeth Cymru yn ei dogfen ymgynghori y byddai'n trafod **llwybrau eraill, gan gynnwys defnyddio pwerau trethu, i geisio dylanwadu ar y diwydiant pe na bai ymdrechion ar lefel y DU i annog ailfformiwleiddio'n symud ymlaen ddigon**.

2.3 Nodwyd bod **diodydd egni'n** broblem benodol o ran pwysau iach ac ymddygiad iach. Roedd rhanddeiliaid yn awyddus i weld deddfwriaeth yn cael ei chyflwyno i **wahardd eu gwerthu i blant dan 16 oed**.

2.4 Nododd y Prif Swyddog Meddygol y **byddai angen cynnal ymgynghoriad manwl cyn deddfu** mewn perthynas â hyrwyddiadau prisiau neu ddiodydd egni, ond cydnabu y gallai camau gweithredu o'r fath fod yn ganlyniad i'r ymgynghoriad hwn. Pwysleisiodd bwysigrwydd **monitro datblygiadau yng ngwledydd eraill y DU** a pharhau i **ddylanwadu ar faterion nad ydynt wedi'u datganoli i Gymru**.

[10] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Cofnod y Trafodion [paragraff 71], 14 Mawrth 2019
[11] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Cofnod y Trafodion [paragraff 71], 14 Mawrth 2019

**Safbwynt y Pwyllgor ar hyrwyddiadau prisiau, arferion cynnig gostyngiadau a gwerthu diodydd egni**

Rydym yn credu y dylai Llywodraeth Cymru gymryd camau gweithredu beiddgar ar unwaith lle ceir consensws yn deillio o'r ymgynghoriad hwn i ddeddfu, gan nodi amserlen ar gyfer sut a phryd y bydd yn cyflwyno deddfwriaeth yn y meysydd hyn. Rydym yn annog Llywodraeth Cymru i barhau â'i gwaith i geisio dylanwadu ar Lywodraeth y DU ar faterion perthnasol nad ydynt wedi'u datganoli.

*Y system gynllunio*

2.5 Roedd **cefnogaeth gref ymhlith rhanddeiliaid i osod cyfyngiadau cynllunio ar safleoedd cludfwyd poeth ger ysgolion.** Galwyd am ganllawiau cynllunio cenedlaethol i'w gwneud yn haws i awdurdodau lleol ddefnyddio'r pwerau sydd ar gael iddynt gyfyngu ar ddatblygiadau o'r fath.

2.6 Nododd y Prif Swyddog Meddygol fod **cynllunio'n faes a oedd yn cael sylw manwl**. Ychwanegodd fod defnyddio'r system gynllunio'n fwy effeithiol yn faes gwaith allweddol, yn enwedig o ran nodi lle y gellid defnyddio'r pwerau presennol yn well mewn awdurdodau lleol. Tynnodd y Prif Swyddog Meddygol sylw at bwysigrwydd defnyddio asesiadau effaith iechyd i lywio penderfyniadau.

2.7 Yn ystod datganiad y Gweinidog ar y strategaeth ddrafft, gofynnwyd iddo beth y gellid ei wneud i gyfyngu ar nifer y safleoedd bwyd brys ger ysgolion. Ymatebodd y Gweinidog drwy ddweud y canlynol:

> "... barn y mwyafrif yw nad oes gennym ni'r pwerau i ystyriaethau iechyd y cyhoedd fod yn ddyfais gynllunio ddilys, felly nid oes modd cyfyngu ar nifer y siopau bwyd cyflym o gwmpas ysgolion, canolfannau hamdden neu ardaloedd eraill. Credaf fod hynny'n broblem. Mae'n faes lle cafwyd dadl rhwng Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU yn ystod hynt y Ddeddf Cymru ddiwethaf, ynghylch pwerau a gedwir yn fwriadol gan Lywodraeth y DU. Rwy'n credu y gallem wneud llawer mwy o gynnydd pe gellid ystyried hynny yn ystyriaeth gynllunio ddilys, ac rwy'n credu y byddem ni i gyd mewn sefyllfa lawer gwell. Ond eto nid yw hynny'n golygu, pan fyddwn yn ystyried cynllunio amgylcheddau iach i fanteisio ar yr hyn sydd gennym ni, na fyddem ni'n gallu gwneud mwy eisoes yn y ffordd yr ydym yn cyflenwi gwasanaethau ac yn y ffordd yr ydym yn cynllunio datblygiadau newydd."[12]

[12] Y Cyfarfod Llawn, Cofnod y Trafodion, [paragraff 294], 29 Ionawr 2019

**Safbwynt y Pwyllgor ar y system gynllunio**

Rydym yn credu y dylai Llywodraeth Cymru ystyried y canlynol:

- yn amodol ar ganlyniadau'r ymgynghoriad hwn, cyhoeddi canllawiau cynllunio cenedlaethol clir i awdurdodau lleol sy'n amlinellu ei disgwyliadau mewn perthynas â defnyddio'r pwerau cynllunio presennol i atal datblygiadau mewn lleoedd a allai waethygu gorbwysau a gordewdra yn ystod plentyndod (e.e. safleoedd cludfwyd poeth ger ysgolion);

- yn amodol ar ganlyniadau'r ymgynghoriad diweddar ar gynigion i gysoni a symleiddio'r Gorchymyn Dosbarthiadau Defnydd a *Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Datblygu Cyffredinol a Ganiateir) 1995 (fel y'i diwygiwyd),* creu "dosbarth defnydd"[13] newydd ar gyfer safleoedd cludfwyd poeth yn unig fel y byddai angen caniatâd cynllunio i'w newid o gaffi neu fwyty i safle cludfwyd poeth;

- trafod yr opsiynau sydd ar gael i alluogi ysgolion i wahardd disgyblion rhag gadael y safle yn ystod y diwrnod ysgol, gan atal mynediad i safleoedd cludfwyd poeth (gan gynnwys darparwyr teithiol).

Rydym yn gofyn i Lywodraeth Cymru nodi mwy o fanylion am y pryderon a godwyd am gyfyngiadau pwerau Cynulliad Cenedlaethol Cymru i ddefnyddio ystyriaethau iechyd y cyhoedd fel sail i ddylanwadu ar bolisi a phenderfyniadau cynllunio, ac egluro'r sefyllfa gynllunio mewn perthynas â darparwyr bwyd teithiol.

*Seilwaith chwaraeon cymunedol a theithio llesol*

2.8 Tynnodd rhanddeiliaid sylw at yr angen i **alluogi cyfleusterau chwaraeon ysgol i gael eu defnyddio ar gyfer y gymuned**. Er bod dyheadau cryf mewn perthynas â seilwaith ysgolion yr 21ain ganrif, nodwyd bod hyn yn ddiffygiol mewn perthynas â mannau gweithgarwch corfforol. Fodd bynnag, pwysleisiwyd bod angen darparu adnoddau i drefnu defnydd cymunedol ac na ddylai hyn fod yn faich i ysgolion eu hunain ei reoli.

[13] Ar hyn o bryd, mae angen caniatâd cynllunio yn Lloegr ond nid yng Nghymru i newid defnydd o gaffi neu fwyty i safle cludfwyd poeth. Yng Nghymru, ystyrir "Bwyd a Diod" yn un "dosbarth defnydd" (o'r enw Dosbarth A3). Mae hyn yn cynnwys bwytai a chaffis, sefydliadau yfed a safleoedd cludfwyd poeth. Felly, ni fyddai angen caniatâd cynllunio gan yr awdurdod cynllunio lleol ar safle sydd â defnydd Dosbarth A3 ar hyn o bryd i'w newid o gaffi neu fwyty i safle cludfwyd poeth. Yn Lloegr, mae Dosbarth A3 Bwyd a diod wedi'i rannu rhwng A3 (Bwytai a chaffis), A4 (Sefydliadau yfed), ac A5 (Safleoedd cludfwyd poeth). Daeth y newid hwn i rym ar 21 Ebrill 2005 ac mae angen caniatâd cynllunio ar gyfer unrhyw newid rhyngddynt.

2.9 Nododd rhanddeiliaid hefyd, yn achos ysgolion cynradd, nad yw **rhaglen ysgolion yr 21ain ganrif** yn gofyn bod gan ysgolion gyfleusterau newid, gan gyfyngu ar y defnydd ehangach o'r mannau hyn ar gyfer y gymuned. Roeddent yn galw i'r rheoliadau perthnasol gael eu hailystyried yn hyn o beth.

2.10 Codwyd **teithio llesol** hefyd, gyda rhanddeiliaid yn pwysleisio pwysigrwydd llwybrau cerdded diogel i gerddwyr a llwybrau beicio, yn enwedig ger llwybrau i ysgolion neu ar hyd-ddynt. Fodd bynnag, cydnabuwyd ei bod yn haws gweithredu hyn mewn perthynas ag adeiladau a datblygiadau newydd yn hytrach na rhai presennol.

2.11 Dywedodd y Prif Swyddog Meddygol fod seilwaith chwaraeon cymunedol yn faes â photensial mawr, ond pwysleisiodd bwysigrwydd **cynnwys ystyriaethau iechyd mewn datblygiadau ar draws y sector cyhoeddus**.[14] Roedd yn argymell y dylid defnyddio **asesiadau effaith iechyd** yn fwy.

**Safbwynt y Pwyllgor ar y seilwaith chwaraeon cymunedol a theithio llesol**

Rydym yn cefnogi Argymhelliad 6 yn adroddiad y Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon ar weithgarwch corfforol plant a phobl ifanc sy'n galw am raglen fuddsoddi mewn cyfleusterau gweithgarwch corfforol i ysgolion presennol nad ydynt yn rhan o fenter Ysgolion yr 21ain Ganrif.

Rydym yn credu y dylai Llywodraeth Cymru edrych eto ar y canlynol:

- cyfeiriad canllawiau Ysgolion yr 21ain Ganrif at ofynion statudol sy'n ymwneud ag adeiladau ysgol y cyfeirir atynt (Rheoliad 3 (7) o Reoliadau Addysg (Mangreoedd Ysgol) 1999). Mae hyn yn nodi bod yn rhaid darparu lle newid sy'n cynnwys cawodydd i ddisgyblion sydd wedi cyrraedd 11 oed ac sy'n cael addysg gorfforol ac y bydd lle ar gael yn rhwydd o dir yr ysgol ac o unrhyw le a ddarperir ar gyfer addysg gorfforol yn adeiladau'r ysgol, sy'n golygu nad oes rhaid i ysgolion cynradd Ysgolion yr 21ain Ganrif fod â chyfleusterau newid, gan gyfyngu ar eu defnydd i'r gymuned;

- yr hyn y mae angen iddo newid mewn perthynas â deddfwriaeth teithio llesol o ystyried bod gwaith craffu ar ôl deddfu diweddar ar Ddeddf Teithio Llesol (Cymru) 2013[15] wedi dangos bod cyfraddau teithio llesol wedi aros yn sefydlog, a bod cyfraddau cerdded i'r ysgol wedi gostwng mewn gwirionedd;

[14] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Cofnod y Trafodion [paragraff 82], 14 Mawrth 2019
[15] Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau, **Gwaith Craffu ar ôl Deddfu ar Ddeddf Teithio Llesol (Cymru) 2013**, Mehefin 2018.

- y gellir annog defnyddio asesiadau effaith iechyd yn fwy cyffredin ar draws datblygiadau a allai gynnig mannau gweithgarwch corfforol neu fwy o opsiynau teithio llesol.

## 3. Lleoliadau iach

*Y blynyddoedd dan oed ysgol a'r blynyddoedd cynnar*

3.1 Roedd pwysigrwydd ymyrryd ac atal yn gynnar yn thema allweddol ymhlith rhanddeiliaid, gyda rhai'n dweud eu bod eisoes ar ei hôl hi erbyn i blant ddechrau ddod i'r ysgol. Pwysleisiwyd bod dewisiadau am fwyd a gweithgarwch yn cael eu diffinio erbyn i'r plant gyrraedd pedair blwydd oed, ac y **dylid darparu cefnogaeth cyn gynted â phosibl**.

3.2 Codwyd pryderon ynghylch cymarebau staff â disgyblion yn y **Cyfnod Sylfaen** a'r effaith y gallai hyn ei chael ar ddull seiliedig ar chwarae'r polisi. Dywedodd Cymdeithas Genedlaethol y Prifathrawon y canlynol:

> "Early years is absolutely critical for the success of the strategy. School funding, and performance measures have potentially diluted the impact of the Foundation Phase e.g. staff / pupil ratio reductions and a less play-based approach than the original policy – this needs to be addressed."[16]

3.3 Esboniodd y Prif Swyddog Meddygol nad oedd yn addysgwr ac nad oedd cymarebau staffio mewn ysgolion yn faes y gofynnwyd iddo ei ystyried. Fodd bynnag, mewn perthynas â'r blynyddoedd cynnar, aeth ymlaen i ddweud y canlynol:

> "… habits are developed early in life. That's in the preschool; it's also in the home of course, and then later in the school. So, we do need to look at all of those as settings and are there more things we can do within those settings to drive healthier behaviours."[17]

**Safbwynt y Pwyllgor ar y blynyddoedd dan oed ysgol a'r blynyddoedd cynnar**

Rydym yn credu y bydd angen mwy o bwyslais yn y strategaeth derfynol ar y blynyddoedd dan oed ysgol a'r blynyddoedd cynnar. Mae'r strategaeth ddrafft yn nodi'r mentrau presennol a phethau sydd eisoes yn cael eu gwneud. O ystyried y ffigurau sy'n ymwneud â gordewdra ymhlith plant, gellir dadlau nad yw'r mentrau hyn wedi cael yr effaith lawn sydd ei hangen a bod angen gwneud mwy o waith i ddatblygu dulliau gweithredu newydd.

---

[16] Gwybodaeth a roddwyd gan Gymdeithas Genedlaethol y Prifathrawon i lywio trafodaeth ford gron y Pwyllgor ar 6 Mawrth 2019
[17] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Cofnod y Trafodion [paragraff 90], 14 Mawrth 2019

*Addysg gorfforol mewn ysgolion a'r cwricwlwm newydd*

3.4 Croesawodd y rhan fwyaf o randdeiliaid ddatblygu'r **maes dysgu a phrofiad iechyd a llesiant yn y cwricwlwm newydd**, er bod rhywfaint o bryder ei bod yn anodd gwneud sylwadau gan nad yw'r manylion ar gael eto.

3.5 Roedd gwahaniaeth barn ymhlith y rhanddeiliaid ynghylch a ddylid cyflwyno **canllawiau statudol ar addysg gorfforol egnïol** i ysgolion yng Nghymru.

3.6 Dadleuodd cynrychiolwyr addysg y byddai unrhyw ofyniad i gyflwyno un maes yn lleihau'r ddarpariaeth mewn un arall. Roeddent yn teimlo y byddai cyflwyno gofyniad statudol i gyflwyno dwy awr o Addysg Gorfforol yr wythnos yn digio disgyblion a rhieni ac yn wrthgynhyrchiol. Roeddent hefyd yn gofyn sut y byddai hyn yn cyd-fynd â hyblygrwydd arfaethedig y cwricwlwm newydd.

3.7 Roedd cynrychiolwyr Chwaraeon Cymru yn argymell cyflwyno gofyniad statudol ar y sail na fyddai'n flaenoriaeth ac na fyddai gweithgarwch corfforol yn cael ei fesur oni bai ei fod yn statudol. Roeddent hefyd yn galw am fwy o **hyfforddiant athrawon ar addysg gorfforol**, yn enwedig mewn ysgolion cynradd.

3.8 Dywedodd y Prif Swyddog Meddygol, gan nad oes digon o blant yng Nghymru yn gorfforol egnïol, fod **ymgorffori gweithgarwch corfforol yn gynnar yn yr ysgol gynradd yn bwysig iawn**. Cydnabu fod angen gwneud mwy i werthuso'r mentrau presennol a chyflwyno cynlluniau llwyddiannus ar ôl eu nodi. Cydnabu hefyd fod **angen trosi'r data a gasglwyd ar weithgarwch corfforol yn rhaglenni sy'n cynyddu gweithgarwch corfforol yn llwyddiannus**, gan esbonio bod arnom angen dull gweithredu poblogaeth o ran sbarduno gweithgarwch corfforol.[18]

3.9 Mewn perthynas â chanllawiau statudol i ysgolion ar addysg gweithgarwch corfforol, dywedodd y Prif Swyddog Meddygol y canlynol:

> "I'd look to the consultation as to whether there was an appetite for any kind of guidance. It may well be that that is something that could be considered. "[19]

3.10 Pan ofynnwyd iddo sut y mae'r strategaeth ddrafft yn cyd-fynd â rhaglen diwygio'r cwricwlwm – yn benodol a ddylai'r cwricwlwm newydd fod yn argyhoeddiadol ac yn ddylanwadol o ran gweithgarwch corfforol neu osod rhwymedigaethau ar arweinwyr ysgol –

[18] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Cofnod y Trafodion [paragraff 116], 14 Mawrth 2019
[19] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Cofnod y Trafodion [paragraff 118], 14 Mawrth 2019

dywedodd y Prif Swyddog Meddygol y byddai'n rhoi sylw i'r pwynt ac yn edrych arno'n fanylach.[20]

**Safbwynt y Pwyllgor ar addysg gorfforol mewn ysgolion a'r cwricwlwm newydd**

Rydym yn credu y bydd angen mwy o eglurder ar sut y bydd y strategaeth derfynol yn dylanwadu a/neu'n rhyngweithio â datblygu'r cwricwlwm newydd, yn benodol y maes dysgu a phrofiad iechyd a llesiant.

*Hyrwyddo ymddygiadau iach*

3.11 Roedd rhanddeiliaid yn cefnogi'r bwriad i fanteisio i'r eithaf ar gyfleoedd i ddisgyblion ysgol fabwysiadu ymddygiadau iach. Pwysleisiwyd pwysigrwydd galluogi plant a phobl ifanc i ddysgu am faeth da a **bwyta mwy o ffrwythau a llysiau**. Awgrymodd rhai y gallai ffrwythau am ddim yn yr ysgol helpu i annog dewisiadau bwyd gwell yn ystod amser egwyl.

3.12 Mewn perthynas â **Rheoliadau Bwyta'n Iach mewn Ysgolion (Cymru) 2013**, nid oedd rhanddeiliaid yn teimlo bod angen gwaith sylweddol, ond bod angen mwy o waith monitro ynghylch i ba raddau y gallai ysgolion gydymffurfio â hwy.

3.13 Dywedodd Pennaeth Cangen Byw'n Iach ac Egnïol Llywodraeth Cymru fod gwaith ar droed i ystyried diweddaru'r Rheoliadau mewn perthynas â chanllawiau cynnwys siwgr. Ychwanegodd fod angen gofal i osgoi canlyniadau anfwriadol gan gynnwys, er enghraifft, newidiadau a fyddai'n golygu bod mwy o blant yn dewis pecynnau cinio a allai fod â llai o werth maethol.

**Safbwynt y Pwyllgor ar hyrwyddo ymddygiadau iach**

Rydym yn credu y bydd angen mwy o eglurder ar faint o ffrwythau a llysiau yr argymhellir y dylid eu bwyta, a pha gamau gweithredu a gymerir i gynyddu cyfran y plant a phobl ifanc sy'n bwyta ffrwythau a llysiau. Mae angen i hyn ystyried anghenion cymunedau mwy difreintiedig, a dysgu o fentrau blaenorol. Byddai mwy o fanylion am sut y caiff plant a phobl ifanc eu hannog i fwyta bwyd iachach a chael deiet mwy amrywiol hefyd yn cael eu croesawu. Dylai'r cynllun terfynol hefyd nodi amserlen ar gyfer diweddaru rheoliadau bwyta'n iach mewn ysgolion

## 4. Pobl iach

*Llwybr gordewdra clinigol*

4.1 Roedd neges gref gan randdeiliaid bod **angen adolygu'r llwybr gordewdra clinigol yn gyflym ac fel mater o flaenoriaeth**. Tynnwyd sylw at y diffyg adnoddau a gwasanaethau

[20] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Cofnod y Trafodion [paragraff 93], 14 Mawrth 2019

cefnogaeth, a galwyd am amserlen glir, arwydd o adnoddau, a phenderfyniad ar yr isafswm lefelau gwasanaeth.

4.2 Awgrymwyd bod angen **gwasanaeth amlddisgyblaethol** lle y gallai plant a phobl ifanc sydd eisoes dros eu pwysau gael gafael ar ystod o glinigwyr arbenigol, gan gynnwys seicolegwyr a deietegwyr. Awgrymwyd bod hyn yn tanseilio'r dull gweithredu "**gwneud i bob cyswllt gyfrif**", gan fod gweithwyr proffesiynol yn pryderu am grybwyll pynciau pan oeddent yn ymwybodol o ddiffyg gwasanaethau cefnogaeth y gellid cyfeirio plentyn neu berson ifanc atynt.

4.3 Cydnabu'r Prif Swyddog Meddygol fod angen diweddaru'r llwybr o ran gwybodaeth a phrofiadau presennol. Aeth ymlaen i ddweud y canlynol:

> "We've challenged Public Health Wales; we've asked Public Health Wales to undertake a review of that pathway, and they are going through that process now."[21]

4.4 Dywedodd Pennaeth Cangen Byw'n Iach ac Egnïol Llywodraeth Cymru y **byddai'r llwybr yn cael ei adolygu erbyn hydref 2019** I lywio'r strategaeth derfynol sydd i'w chyhoeddi ym mis Hydref 2019.

4.5 O ran cefnogi plant sydd dros eu pwysau'n sylweddol, dywedodd y Prif Swyddog Meddygol y canlynol:

> "I don't think we have enough in the way of targeted support to be able to support those [very overweight children]. There are programmes available, but they're perhaps not universally provided. So, I think there's something about looking at our whole pathway, mapping out what the current evidence now shows us is needed, and then thinking about what is our provision in Wales and what do we need to do to bring that up to the level of the places that are the best."[22]

**Safbwynt y Pwyllgor ar y llwybr gordewdra clinigol**

Er ein bod yn croesawu ffocws y strategaeth ddrafft ar genedlaethau'r dyfodol, rydym yn cydnabod ac yn pwysleisio pwysigrwydd darparu cefnogaeth i'r plant a'r bobl ifanc sydd eisoes dros eu pwysau neu'n ordew. Dylai'r gefnogaeth hon ddiwallu anghenion meddyliol a chorfforol ein plant a'n pobl ifanc. Nododd adroddiad 2014 y Pwyllgor a'n rhagflaenodd ar ordewdra ymhlith plant fwlch sylweddol yn narpariaeth gwasanaethau cefnogaeth a thriniaeth i blant a

[21] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Cofnod y Trafodion [paragraff 138], 14 Mawrth 2018
[22] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Cofnod y Trafodion [paragraff 141], 14 Mawrth 2018

phobl ifanc ac rydym yn pryderu am adroddiadau rhanddeiliaid nad oes llawer o welliant. Mae angen mynd i'r afael â hyn fel mater o frys.

Mae angen mwy o fanylion ar y camau gweithredu a gymerir i sicrhau bod llwybr a gwasanaethau effeithiol ar waith i blant a phobl ifanc y mae gorbwysau a gordewdra eisoes yn effeithio arnynt.

Rydym hefyd yn bryderus iawn nad yw'r amserlenni a amlinellwyd gan y Prif Swyddog Meddygol a swyddogion yn gadael fawr ddim amser i ganlyniadau'r adolygiad o'r llwybr lywio'r strategaeth derfynol mewn modd ystyrlon.

*Anghydraddoldebau iechyd a chefnogaeth i deuluoedd sydd ar incwm isel*

4.6 Mynegodd rhanddeiliaid rai pryderon ynghylch i ba raddau y mae'r ymgynghoriad yn mynd i'r afael â **heriau i deuluoedd sydd ar incwm isel**. Roedd y ffaith bod gorbwysau a gordewdra yn fwy cyffredin ymhlith y rhai mewn cymunedau mwy difreintiedig yn economaidd-gymdeithasol hefyd yn destun pryder. Awgrymwyd y gellid gwneud mwy o waith segmentu i ddeall y materion cymdeithasol, diwylliannol, amgylcheddol y bydd grwpiau gwahanol yn eu hwynebu.

4.7 Dywedodd y Prif Swyddog Meddygol y canlynol:

> "There is something about the affordability of good-quality healthy food that we need to think about. We do need to think in broad terms—broader terms than just obesity, but we do need to think in broad terms—about how we create a society where families have the wherewithal to lead healthy lives, and that gets you to really important questions about the minimum wage and income poverty.
>
> There's no doubt in my mind—I'm a public health professional—and there's no doubt in my mind that economic success and health success go hand in hand. So, you speak to a very deep question there. In terms of what we can do through this particular consultation, there are some things in there about providing better access, but without tackling some of those deeper determinants of health, their impact will necessarily be limited."[23]

**Safbwynt y Pwyllgor ar anghydraddoldebau iechyd a chefnogaeth i deuluoedd sydd ar incwm isel**

Er bod anghydraddoldebau iechyd yn cael eu crybwyll, mae diffyg tystiolaeth bod Llywodraeth Cymru yn cymryd camau gweithredu beiddgar i fynd i'r afael â hwy drwy'r strategaeth ddrafft

[23] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Cofnod y Trafodion [paragraffau 147-148], 14 Mawrth 2019

hon. Nid ydym yn argyhoeddedig y bydd y camau gweithredu arfaethedig, fel y maent wedi'u drafftio ar hyn o bryd, yn ddigonol i fynd i'r afael â'r anghydraddoldebau iechyd difrifol sy'n gysylltiedig â gordewdra ymhlith plant. Rydym yn annog Llywodraeth Cymru i drafod hyn yn fanylach a mynd i'r afael â'r pryderon a godwyd cyn cyhoeddi'r strategaeth derfynol.